**PRIFFYRDD, CYMRU**

# 2018 Rhif 48

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

**GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (FFORDD DDIDDOSBARTH I LAN-MAES, I'R GOGLEDD O EGLWYS BREWIS ROAD RHWNG TREBEFERED A SAIN TATHAN, BRO MORGANNWG) 2018**

*Gwnaed* *8 Mawrth 2018*

*Yn dod i rym* *13 Mawrth 2018*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer eu pwerau o dan adran 248 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** (1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cau Priffyrdd (Ffordd Ddiddosbarth i Lan-maes, i'r gogledd o Eglwys Brewis Road rhwng Trebefered a Sain Tathan, Bro Morgannwg) 2018.

(2) Yn y Gorchymyn hwn:-

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg;

ystyr "y datblygwr" ("*the developer*") yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio wedi ei roi ar ei gyfer;

ystyr "Deddf 1990" ("*the 1990 Act*") yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; ac

ystyr "y plan a adneuwyd" ("*the deposited plan*") yw'r plan sy'n dwyn yr enw "Gorchymyn Cau Priffyrdd (Ffordd Ddiddosbarth i Lan-maes, i'r gogledd o Eglwys Brewis Road rhwng Trebefered a Sain Tathan, Bro Morgannwg) 2018" sy'n dod gyda'r Gorchymyn hwn.

**(1)** 1990 p. 8. Diwygiwyd gan adran 20(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p. 19) a pharagraff 24(9) o Atodlen 6 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac maent yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30(2) o Atodlen 11 iddi.

**HIGHWAYS, WALES**

# 2018 No. 48

**TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990**

**THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (UNCLASSIFIED ROAD TO LLANMAES, NORTH OF EGLWYS BREWIS ROAD BETWEEN BOVERTON AND ST. ATHAN, VALE OF GLAMORGAN) ORDER 2018**

*Made* *8 March 2018*

*Coming into Force* *13 March 2018*

The Welsh Ministers, in exercise of their powers under section 248 of the Town and Country Planning Act 1990(1), make this Order.

**Title, Interpretation and Commencement**

**1.** (1) The title of this Order is The Stopping Up of Highways (Unclassified Road to Llanmaes, north of Eglwys Brewis Road between Boverton and St. Athan, Vale of Glamorgan) Order 2018.

(2) In this Order:-

"the Council" ("*y Cyngor*") means the Vale of Glamorgan County Borough Council;

"the deposited plan" ("*y plan a adneuwyd*") means the plan entitled "The Stopping Up of Highways (Unclassified Road to Llanmaes, north of Eglwys Brewis Road between Boverton and St. Athan, Vale of Glamorgan) Order 2018" which accompanies this Order;

"the developer" ("*y datblygwr*") means the person carrying out the development for which the planning permission has been given; and

"the 1990 Act" ("*Y Deddf 1990*") means the Town and Country Planning Act 1990.

**(1)** 1990 c. 8. Amended by section 20(4) of, and paragraph 24(9) of Schedule 6 to, the Local Government (Wales) Act 1994 (c.19)By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1, the functions of the Secretary of State, so far as exercisable in relation to Wales, were transferred to the National Assembly for Wales and are now exercisable by the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraph 30(2) of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 c. 32.

(3) Daw’r Gorchymyn hwn i rym ar y dyddiad y cyhoeddir yr hysbysiad ei fod wedi ei wneud yn unol ag adran 252(10) o Ddeddf 1990.

**Cau Priffyrdd**

**2.** Yn ddarostyngedig i erthyglau 3, 4, 5 a 6 o’r Gorchymyn hwn, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau’r darnau o briffyrdd a ddisgrifir yn Atodlen 1 ac a ddangosir â llinellau lletraws tenau ar y plan a adneuwyd. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod angen cau’r priffyrdd er mwyn gwneud y datblygiad yn unol â’r caniatâd cynllunio a roddwyd gan y Cyngor ar 8 Medi 2017 o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 o dan y cyfeirnod 2017/00564/FUL ac a ddisgrifir yn Atodlen 4 i’r Gorchymyn hwn.

**Priffyrdd Newydd**

**3.** Rhaid creu, er boddhad rhesymol y Cyngor, y priffyrdd newydd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i’r Gorchymyn hwn, ac a ddangosir â dotwaith ar y plan a adneuwyd, a’r priffyrdd y gwneir gwelliannau iddynt a ddisgrifir yn Atodlen 3 i’r Gorchymyn hwn, ac a ddangosir â chroeslinellau ar y plan a adneuwyd, ac mae’r priffyrdd hyn i fod yn briffyrdd i’w cynnal ar draul y pwrs cyhoeddus, at ddibenion Deddf Priffyrdd 1980(2). Y Cyngor fydd yr awdurdod priffyrdd ar eu cyfer.

**Y Darpariaethau sy’n Angenrheidiol neu’n Hwylus cyn Cau Priffyrdd**

**4.** Ni chaniateir cau’r darnau o briffyrdd a ddisgrifir yn Atodlen 1-

(a) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, blaniau sy’n dangos sut y mae’r darnau o briffyrdd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i’w cau;

(b) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu’r priffyrdd newydd a gwell a ddisgrifir yn Atodlenni 2 a 3 i’r Gorchymyn hwn er boddhad rhesymol y Cyngor;

(c) hyd nes y bydd y datblygiad yn Atodlen 4 wedi ei ddechrau a bod y datblygwr wedi hysbysu’r Cyngor yn ysgrifenedig ei bod yn angenrheidiol cau’r priffyrdd a ddisgrifir yn Atodlen 1 er mwyn i’r datblygiad fynd rhagddo; a

(d) hyd nes y bydd y Cyngor wedi ysgrifennu at y datblygwr i gadarnhau bod paragraffau (a), (b) ac (c) wedi eu bodloni.

(3) This Order comes into force on the date on which notice that it has been made is published in accordance with section 252(10) of the 1990 Act.

**Stopping Up**

**2.** Subject to articles 3, 4, 5 and 6 of this Order, the Welsh Ministers authorise the stopping up of the lengths of highway described in Schedule 1 and shown by thin diagonal hatching on the deposited plan. The Welsh Ministers are satisfied that the stopping up is necessary to enable development to be carried out in accordance with planning permission granted under Part 3 of the 1990 Act by the Council on 8 September 2017 under reference number 2017/00564/FUL and described in Schedule 4 to this Order.

**New Highways**

**3.** There must be created, to the reasonable satisfaction of the Council, the new highways described in Schedule 2 to this Order and shown by stipple on the deposited plan and the improved highways described in Schedule 3 to this Order shown by cross hatching on the deposited plan, which are to be highways maintainable at the public expense for the purposes of the Highways Act 1980(2) and the Council is to be the highway authority for them.

**Provisions Necessary or Expedient before Stopping Up**

**4.** The lengths of highway described in Schedule 1 must not be stopped up until-

(a) the developer has provided, to the reasonable satisfaction of the Council, plans showing the means whereby the lengths of highway described in Schedule 1 are to be stopped up;

(b) the developer has provided the new and improved lengths of highway described in Schedules 2 and 3 to this Order to the reasonable satisfaction of the Council;

(c) the development in Schedule 4 has commenced and the developer has informed the Council in writing of the necessity to stop up the highways described in Schedule 1 to allow the development to proceed; and

(d) the Council has confirmed in writing to the developer that paragraphs (a), (b) and (c) are satisfied.

**(1)** 1980 p. 66

**(1)** 1980 c.66

**Ymgymerwyr Statudol a Darparwyr**

**5.** Pan fo gan ymgymerwyr statudol neu ddarparwyr system gyfathrebu gyhoeddus unrhyw gyfarpar o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws yn union cyn cau'r darnau o briffordd yna (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990), bydd gan yr ymgymerwyr neu'r darparwyr yr un hawliau mewn cysylltiad â'r cyfarpar ag a oedd ganddynt cyn cau'r briffordd.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**6.** Os na fydd y datblygiad yn Atodlen 4 wedi ei ddechrau yn y cyfnod perthnasol a bennir yn Rhan 3 o Ddeddf 1990 fel cyfnod para'r caniatâd cynllunio, neu os caiff y caniatâd ei ddirymu cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â chael effaith pan ddaw'r caniatâd cynllunio i ben.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 8 Mawrth 2018

*Nina Ley*
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLENNI**

**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

**ATODLEN 1**

**Disgrifiad o'r darnau o briffyrdd sydd i'w cau o dan y Gorchymyn**

Y darn hwnnw o briffordd ddiddosbarth at bob diben sy'n ymestyn i gyfeiriad y gogledd-orllewin o bwynt 155 o fetrau i'r gogledd-orllewin o'i chyffordd ag Eglwys Brewis Road, y mae ei hyd yn ei fan hiraf yn 83 o fetrau a'i led yn ei fan lletaf yn 13 o fetrau, y mae cyfanswm ei arwynebedd yn 870 o fetrau sgwâr ac y rhoddir y cyfeirnod 'A' iddo ar y plan a adneuwyd.

Y darn hwnnw o briffordd ddiddosbarth at bob diben sy'n ymestyn i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain o bwynt

**Statutory Undertakers and Providers**

**5.** Where immediately before the lengths of highway are stopped up, there is under, in, on, over, along or across the highway any apparatus of statutory undertakers or public communications providers then (subject to section 261(4) of the 1990 Act) the undertakers or providers continue to have the same rights in respect of the apparatus as they had before the stopping up.

**Duration of this Order**

**6.** If the development in Schedule 4 has not begun within the relevant period specified in Part 3 of the 1990 Act as being the duration of the planning permission, or the permission is revoked before the end of that period, this Order ceases to have effect upon the cessation of the planning permission.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated 8 March 2018

*Nina Ley*
Head of Business Unit, Network Management
Welsh Government

**SCHEDULES**

**(All measurements are approximate)**

**SCHEDULE 1**

**Description of the lengths of highway to be stopped up under the Order**

That length of unclassified all purpose highway that extends in a northwesterly direction from a point 155 metres northwest of its junction with Eglwys Brewis Road for a maximum length of 83 metres and having a maximum width of 13 metres, a total area of 870 square metres and given the reference 'A' on the deposited plan.

That length of unclassified all purpose highway that extends in a northeasterly direction from a point 50

50 metr i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth at bob diben sy'n arwain at Eglwys Brewis Road, y mae ei hyd yn ei fan hiraf yn 80 metr a'i led yn ei fan lletaf yn 7 metr, y mae cyfanswm ei arwynebedd yn 240 o fetrau sgwâr ac y rhoddir y cyfeirnod 'B' iddo ar y plan a adneuwyd.

Y darn hwnnw o Lwybr Troed Cyhoeddus Rhif 16 sy'n ymestyn i gyfeiriad y gorllewin o bwynt 165 o fetrau i'r gorllewin o'i gyffordd ag Eglwys Brewis Road, y mae ei hyd yn ei fan hiraf yn 175 o fetrau a'i led yn ei fan lletaf yn 2 fetr, y mae cyfanswm ei arwynebedd yn 350 o fetrau sgwâr ac y rhoddir y cyfeirnod 'C' iddo ar y plan a adneuwyd.

Y darn hwnnw o Lwybr Troed Cyhoeddus Rhif 17 sy'n ymestyn i gyfeiriad y gogledd o bwynt 132 o fetrau i'r gogledd o'i gyffordd ag Eglwys Brewis Road, y mae ei hyd yn ei fan hiraf yn 49 o fetrau a'i led yn ei fan lletaf yn 2 fetr, y mae cyfanswm ei arwynebedd yn 98 o fetrau sgwâr ac y rhoddir y cyfeirnod 'D' iddo ar y plan a adneuwyd.

metres northeast of its junction with the unclassified all purpose road leading to Eglwys Brewis Road for a maximum length of 80 metres and having a maximum width of 7 metres, a total area of 240 square metres and given the reference 'B' on the deposited plan.

That length of Public Footpath No. 16 that extends in a westerly direction from a point 165 metres west of its junction with Eglwys Brewis Road for a maximum length of 175 metres and having a maximum width of 2 metres, a total area of 350 square metres and given the reference 'C' on the deposited plan.

That length of Public Footpath No. 17 that extends in a northerly direction from a point 132 metres north of its junction with Eglwys Brewis Road for a maximum length of 49 metres and having a maximum width of 2 metres, a total area of 98 square metres and given the reference 'D' on the deposited plan.

## ATODLEN 2

**Disgrifiad o'r darnau o briffyrdd newydd sydd i'w darparu o dan y Gorchymyn**

Darn newydd o Lwybr Troed Cyhoeddus Rhif 16 a ddargyfeiriwyd sy'n ymestyn i gyfeiriad y gogledd-orllewin dros ran o'r briffordd ddiddosbarth at bob diben a gaewyd sy'n arwain at Eglwys Brewis Road, o bwynt 172 o fetrau i'r gogledd-orllewin o'i gyffordd ag Eglwys Brewis Road, y mae ei hyd yn ei fan hiraf yn 62 o fetrau a'i led yn ei fan lletaf yn 13 o fetrau, y mae cyfanswm ei arwynebedd yn 699 o fetrau sgwâr ac y rhoddir y cyfeirnod 'E' iddo ar y plan a adneuwyd.

Darn newydd o Lwybr Troed Cyhoeddus Rhif 16 a ddargyfeiriwyd sy'n ymestyn i gyfeiriad y gorllewin yn gyffredinol o bwynt ar Lwybr Troed Cyhoeddus Rhif 16 sy'n weddill, 165 o fetrau i'r gorllewin o'i gyffordd ag Eglwys Brewis Road, y mae ei hyd yn ei fan hiraf yn 105 o fetrau a'i led yn ei fan lletaf yn 2 fetr, y mae cyfanswm ei arwynebedd yn 209 o fetrau sgwâr ac y rhoddir y cyfeirnod 'F' iddo ar y plan a adneuwyd.

Darn newydd o Lwybr Troed Cyhoeddus Rhif 17 a ddargyfeiriwyd sy'n ymestyn i gyfeiriad y gorllewin o bwynt ar Lwybr Troed Cyhoeddus Rhif 17 sy'n weddill, 132 o fetrau i'r gogledd o'i gyffordd ag Eglwys Brewis Road, y mae ei hyd yn ei fan hiraf yn 38 o fetrau a'i led yn ei fan lletaf yn 2 fetr, y mae cyfanswm ei arwynebedd yn 77 o fetrau sgwâr ac y rhoddir y cyfeirnod 'G' iddo ar y plan a adneuwyd.

## SCHEDULE 2

**Description of the lengths of new highway to be provided under the Order**

A new length of diverted Public Footpath No. 16 that extends in a northwesterly direction over part of the stopped up unclassified all purpose highway leading to Eglwys Brewis Road, from a point 172 metres northwest of its junction with Eglwys Brewis Road for a maximum length of 62 metres and having a maximum width of 13 metres, a total area of 699 square metres and given the reference 'E' on the deposited plan.

A new length of diverted Public Footpath No.16 that extends in a generally westerly direction from a point on the remaining Public Footpath No.16, 165 metres west of its junction with Eglwys Brewis Road for a maximum length of 105 metres and having a maximum width of 2 metres, a total area of 209 square metres and given the reference 'F' on the deposited plan.

A new length of diverted Public Footpath No.17 that extends in a westerly direction from a point on the remaining Public Footpath No.17, 132 metres north of its junction with Eglwys Brewis Road for a maximum length of 38 metres and having a maximum width of 2 metres, a total area of 77 square metres and given the reference 'G' on the deposited plan.

A new length of diverted Public Footpath No.17 that extends in a southwesterly direction from a point on

Darn newydd o Lwybr Troed Cyhoeddus Rhif 17 a ddargyfeiriwyd sy’n ymestyn i gyfeiriad y de-orllewin o bwynt ar Lwybr Troed Cyhoeddus Rhif 17 sy’n weddill, 181 o fetrau i’r gogledd o’i gyffordd ag Eglwys Brewis Road, y mae ei hyd yn ei fan hiraf yn 34 o fetrau a’i led yn ei fan lletaf yn 2 fetr, y mae cyfanswm ei arwynebedd yn 67 o fetrau sgwâr ac y rhoddir y cyfeirnod ‘H’ iddo ar y plan a adneuwyd.

the remaining Public Footpath No.17, 181 metres north of its junction with Eglwys Brewis Road for a maximum length of 34 metres and having a maximum width of 2 metres, a total area of 67 square metres and given the reference ‘H’ on the deposited plan.

## ATODLEN 3

### Priffyrdd y Gwneir Gwelliannau Iddynt

Y darn hwnnw o briffordd ddiddosbarth at bob diben sy’n ymestyn i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain yn gyffredinol o’i chyffordd â’r briffordd ddiddosbarth at bob diben sy’n arwain at Eglwys Brewis Road, y mae ei hyd yn ei fan hiraf yn 105 o fetrau a’i led yn ei fan lletaf yn 6 metr, y mae cyfanswm ei arwynebedd yn 439 o fetrau sgwâr ac y rhoddir y cyfeirnod ‘I’ iddo ar y plan a adneuwyd.

Y darn hwnnw o briffordd ddiddosbarth at bob diben sy’n ymestyn i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain yn gyffredinol o bwynt 104 o fetrau i’r gogledd-ddwyrain o’i chyffordd â’r briffordd ddiddosbarth at bob diben sy’n arwain at Eglwys Brewis Road, y mae ei hyd yn ei fan hiraf yn 36 o fetrau a’i led yn ei fan lletaf yn 6 metr, y mae cyfanswm ei arwynebedd yn 128 o fetrau sgwâr ac y rhoddir y cyfeirnod ‘J’ iddo ar y plan a adneuwyd.

## SCHEDULE 3

### Improved Highways

That length of unclassified all purpose highway that extends in a generally northeasterly direction from its junction with the unclassified all purpose highway leading to Eglwys Brewis Road for a maximum length of 105 metres and having a maximum width of 6 metres, a total area of 439 square metres and given the reference ‘I’ on the deposited plan.

That length of unclassified all purpose highway that extends in a generally northeasterly direction from a point 104 metres northeast of its junction with the unclassified all purpose highway leading to Eglwys Brewis Road for a maximum length of 36 metres and having a maximum width of 6 metres, a total area of 128 square metres and given the reference ‘J’ on the deposited plan.

## ATODLEN 4

### Y Datblygiad

Datblygiad arfaethedig i adeiladu priffordd newydd (o’r enw’r Ffordd Fynediad Ogleddol) gyda throetffyrdd, ffordd feiciau, cyffyrdd newydd, goleuadau, arwyddion, ffensys, gwaith lliniaru llifogydd, atalfeydd acwstig a mesurau lliniaru amgylcheddol eraill, tirweddu, dymchwel garej yn Rose Cottage a’r holl weithrediadau peirianyddol ac adeiladu cysylltiedig ar dir i’r dwyrain o’r B4265 rhwng Trebefered ac Eglwys Brewys, Sain Tathan.

## SCHEDULE 4

### The Development

Proposed construction of a new highway (called the Northern Access Road) with footways, cycleway, new junctions, lighting, signs, fencing, flood alleviation works, acoustic barriers and other environmental mitigation measures, landscaping, demolition of garage at Rose Cottage and all associated engineering and building operations at land east of B4265 between Boverton and Eglwys Brewis, St. Athan.

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

**GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (FFORDD DDIDDOSBARTH I LAN-MAES, I'R GOGLEDD O EGLWYS BREWIS ROAD RHWNG TREBEFERED A SAIN TATHAN, BRO MORGANNWG) 2018**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 248 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i awdurdodi cau'r darnau o briffyrdd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn, i ddarparu'r darnau newydd o briffyrdd a ddisgrifir yn Atodlen 2 ac i wella'r darnau o briffyrdd a ddisgrifir yn Atodlen 3 er mwyn gwneud y datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 4. Bydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Ffordd Ddiddosbarth i Lan-maes, i'r gogledd o Eglwys Brewis Road rhwng Trebefered a Sain Tathan, Bro Morgannwg) 201- ("y Gorchymyn") yn peidio â chael effaith os daw'r caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â'r datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Gellir edrych ar gopïau o'r Gorchymyn a'r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim yng Llyfrgell Llanilltud Fawr, Heol Boverton, Llanilltud Fawr, CF61 1XZ ac yn Hwb Cymunedol a Llyfrgell Sain Tathan, Yr Hen Ysgol Gynradd, Lôn yr Eglwys, CF62 4PL yn ystod oriau agor arferol neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1311411.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn, ar y sail:

a. nad yw o fewn pwerau'r Ddeddf; neu

b. na chydymffurfiwyd ag un o ofynion gweithdrefnol y Ddeddf;

o fewn 6 wythnos i 13 Mawrth 2018, wneud cais i'r Uchel Lys.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/ Isddeddfwriaeth/ Offerynnau Anstatudol/ Trafnidiaeth/ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref: Gorchmynion Cau/ 2018).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990**

**THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (UNCLASSIFIED ROAD TO LLANMAES, NORTH OF EGLWYS BREWIS ROAD BETWEEN BOVERTON AND ST. ATHAN, VALE OF GLAMORGAN) ORDER 2018**

The Welsh Ministers have made an Order under section 248 of the Town and Country Planning Act 1990 to authorise the stopping up of the lengths of highway described in Schedule 1 to this Notice, to provide the new lengths of highway described in Schedule 2 and to improve the lengths of highway described in Schedule 3 to enable the development described in Schedule 4 to be carried out. The Stopping Up of Highways (Unclassified Road to Llanmaes, north of Eglwys Brewis Road between Boverton and St. Athan, Vale of Glamorgan) Order 201- ("the Order") will cease to have effect if planning permission in respect of the development expires or is revoked.

Copies of the Order and the deposited plan may be inspected free of charge at Llantwit Major Library, Boverton Road, Llantwit Major, CF61 1XZ and at St Athan Community Hub and Library, Old Primary School, Church Lane, CF62 4PL during usual opening hours or may be obtained free of charge from the address below quoting reference qA1311411.

If a person is aggrieved by the Order, on the ground that:

a. it is not within the powers of the Act; or

b. a procedural requirement of the Act has not been complied with;

that person may, within 6 weeks of 13 March 2018 make an application for the purpose to the High Court.

A copy of the Order and Notice can be viewed at www.gov.wales (Select: Legislation/ Subordinate legislation/ Non-Statutory Instruments/ Transport / TCPA Stopping Up Orders/ 2018).

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Transport, Orders Branch, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## YR ATODLENNI

**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

### ATODLEN 1

**Disgrifiad o'r darnau o briffyrdd sydd i'w cau o dan y Gorchymyn**

Y darn hwnnw o briffordd ddiddosbarth at bob diben sy'n ymestyn i gyfeiriad y gogledd-orllewin o bwynt 155 o fetrau i'r gogledd-orllewin o'i chyffordd ag Eglwys Brewis Road, y mae ei hyd yn ei fan hiraf yn 83 o fetrau a'i led yn ei fan lletaf yn 13 o fetrau, y mae cyfanswm ei arwynebedd yn 870 o fetrau sgwâr ac y rhoddir y cyfeirnod 'A' iddo ar y plan a adneuwyd.

Y darn hwnnw o briffordd ddiddosbarth at bob diben sy'n ymestyn i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain o bwynt 50 metr i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth at bob diben sy'n arwain at Eglwys Brewis Road, y mae ei hyd yn ei fan hiraf yn 80 metr a'i led yn ei fan lletaf yn 7 metr, y mae cyfanswm ei arwynebedd yn 240 o fetrau sgwâr ac y rhoddir y cyfeirnod 'B' iddo ar y plan a adneuwyd.

Y darn hwnnw o Lwybr Troed Cyhoeddus Rhif 16 sy'n ymestyn i gyfeiriad y gorllewin o bwynt 165 o fetrau i'r gorllewin o'i gyffordd ag Eglwys Brewis Road, y mae ei hyd yn ei fan hiraf yn 175 o fetrau a'i led yn ei fan lletaf yn 2 fetr, y mae cyfanswm ei arwynebedd yn 350 o fetrau sgwâr ac y rhoddir y cyfeirnod 'C' iddo ar y plan a adneuwyd.

Y darn hwnnw o Lwybr Troed Cyhoeddus Rhif 17 sy'n ymestyn i gyfeiriad y gogledd o bwynt 132 o fetrau i'r gogledd o'i gyffordd ag Eglwys Brewis Road, y mae ei hyd yn ei fan hiraf yn 49 o fetrau a'i led yn ei fan lletaf yn 2 fetr, y mae cyfanswm ei arwynebedd yn 98 o fetrau sgwâr ac y rhoddir y cyfeirnod 'D' iddo ar y plan a adneuwyd.

### ATODLEN 2

**Disgrifiad o'r darnau o briffyrdd newydd sydd i'w darparu o dan y Gorchymyn**

Darn newydd o Lwybr Troed Cyhoeddus Rhif 16 a ddargyfeiriwyd sy'n ymestyn i gyfeiriad y gogledd-orllewin dros ran o'r briffordd ddiddosbarth at bob diben a gaewyd sy'n arwain at Eglwys Brewis Road, o bwynt 172 o fetrau i'r gogledd-orllewin o'i gyffordd ag Eglwys Brewis Road, y mae ei hyd yn ei fan hiraf

**M D BURNELL**
Transport
Welsh Government

## SCHEDULES

**(All measurements are approximate)**

### SCHEDULE 1

**Description of the lengths of highway to be stopped up under the Order**

That length of unclassified all purpose highway that extends in a northwesterly direction from a point 155 metres northwest of its junction with Eglwys Brewis Road for a maximum length of 83 metres and having a maximum width of 13 metres, a total area of 870 square metres and given the reference 'A' on the deposited plan.

That length of unclassified all purpose highway that extends in a northeasterly direction from a point 50 metres northeast of its junction with the unclassified all purpose road leading to Eglwys Brewis Road for a maximum length of 80 metres and having a maximum width of 7 metres, a total area of 240 square metres and given the reference 'B' on the deposited plan.

That length of Public Footpath No. 16 that extends in a westerly direction from a point 165 metres west of its junction with Eglwys Brewis Road for a maximum length of 175 metres and having a maximum width of 2 metres, a total area of 350 square metres and given the reference 'C' on the deposited plan.

That length of Public Footpath No. 17 that extends in a northerly direction from a point 132 metres north of its junction with Eglwys Brewis Road for a maximum length of 49 metres and having a maximum width of 2 metres, a total area of 98 square metres and given the reference 'D' on the deposited plan.

### SCHEDULE 2

**Description of the lengths of new highway to be provided under the Order**

A new length of diverted Public Footpath No. 16 that extends in a northwesterly direction over part of the stopped up unclassified all purpose highway leading to Eglwys Brewis Road, from a point 172 metres northwest of its junction with Eglwys Brewis Road for a maximum length of 62 metres and having a maximum width of 13 metres, a total area of 699 square metres and given the reference 'E' on the deposited plan.

yn 62 o fetrau a'i led yn ei fan lletaf yn 13 o fetrau, y mae cyfanswm ei arwynebedd yn 699 o fetrau sgwâr ac y rhoddir y cyfeirnod 'E' iddo ar y plan a adneuwyd.

Darn newydd o Lwybr Troed Cyhoeddus Rhif 16 a ddargyfeiriwyd sy'n ymestyn i gyfeiriad y gorllewin yn gyffredinol o bwynt ar Lwybr Troed Cyhoeddus Rhif 16 sy'n weddill, 165 o fetrau i'r gorllewin o'i gyffordd ag Eglwys Brewis Road, y mae ei hyd yn ei fan hiraf yn 105 o fetrau a'i led yn ei fan lletaf yn 2 fetr, y mae cyfanswm ei arwynebedd yn 209 o fetrau sgwâr ac y rhoddir y cyfeirnod 'F' iddo ar y plan a adneuwyd.

Darn newydd o Lwybr Troed Cyhoeddus Rhif 17 a ddargyfeiriwyd sy'n ymestyn i gyfeiriad y gorllewin o bwynt ar Lwybr Troed Cyhoeddus Rhif 17 sy'n weddill, 132 o fetrau i'r gogledd o'i gyffordd ag Eglwys Brewis Road, y mae ei hyd yn ei fan hiraf yn 38 o fetrau a'i led yn ei fan lletaf yn 2 fetr, y mae cyfanswm ei arwynebedd yn 77 o fetrau sgwâr ac y rhoddir y cyfeirnod 'G' iddo ar y plan a adneuwyd.

Darn newydd o Lwybr Troed Cyhoeddus Rhif 17 a ddargyfeiriwyd sy'n ymestyn i gyfeiriad y de-orllewin o bwynt ar Lwybr Troed Cyhoeddus Rhif 17 sy'n weddill, 181 o fetrau i'r gogledd o'i gyffordd ag Eglwys Brewis Road, y mae ei hyd yn ei fan hiraf yn 34 o fetrau a'i led yn ei fan lletaf yn 2 fetr, y mae cyfanswm ei arwynebedd yn 67 o fetrau sgwâr ac y rhoddir y cyfeirnod 'H' iddo ar y plan a adneuwyd.

## ATODLEN 3

## Priffyrdd y Gwneir Gwelliannau Iddynt

Y darn hwnnw o briffordd ddiddosbarth at bob diben sy'n ymestyn i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain yn gyffredinol o'i chyffordd â'r briffordd ddiddosbarth at bob diben sy'n arwain at Eglwys Brewis Road, y mae ei hyd yn ei fan hiraf yn 105 o fetrau a'i led yn ei fan lletaf yn 6 metr, y mae cyfanswm ei arwynebedd yn 439 o fetrau sgwâr ac y rhoddir y cyfeirnod 'I' iddo ar y plan a adneuwyd.

Y darn hwnnw o briffordd ddiddosbarth at bob diben sy'n ymestyn i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain yn gyffredinol o bwynt 104 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â'r briffordd ddiddosbarth at bob diben sy'n arwain at Eglwys Brewis Road, y mae ei hyd yn ei fan hiraf yn 36 o fetrau a'i led yn ei fan lletaf yn 6 metr, y mae cyfanswm ei arwynebedd yn 128 o fetrau sgwâr ac y rhoddir y cyfeirnod 'J' iddo ar y plan a adneuwyd.

## ATODLEN 4

A new length of diverted Public Footpath No.16 that extends in a generally westerly direction from a point on the remaining Public Footpath No.16, 165 metres west of its junction with Eglwys Brewis Road for a maximum length of 105 metres and having a maximum width of 2 metres, a total area of 209 square metres and given the reference 'F' on the deposited plan.

A new length of diverted Public Footpath No.17 that extends in a westerly direction from a point on the remaining Public Footpath No.17, 132 metres north of its junction with Eglwys Brewis Road for a maximum length of 38 metres and having a maximum width of 2 metres, a total area of 77 square metres and given the reference 'G' on the deposited plan.

A new length of diverted Public Footpath No.17 that extends in a southwesterly direction from a point on the remaining Public Footpath No.17, 181 metres north of its junction with Eglwys Brewis Road for a maximum length of 34 metres and having a maximum width of 2 metres, a total area of 67 square metres and given the reference 'H' on the deposited plan.

## SCHEDULE 3

## Improved Highways

That length of unclassified all purpose highway that extends in a generally northeasterly direction from its junction with the unclassified all purpose highway leading to Eglwys Brewis Road for a maximum length of 105 metres and having a maximum width of 6 metres, a total area of 439 square metres and given the reference 'I' on the deposited plan.

That length of unclassified all purpose highway that extends in a generally northeasterly direction from a point 104 metres northeast of its junction with the unclassified all purpose highway leading to Eglwys Brewis Road for a maximum length of 36 metres and having a maximum width of 6 metres, a total area of 128 square metres and given the reference 'J' on the deposited plan.

## SCHEDULE 4

## The Development

Proposed construction of a new highway (called the Northern Access Road) with footways, cycleway, new junctions, lighting, signs, fencing, flood alleviation works, acoustic barriers and other environmental mitigation measures, landscaping, demolition of garage at Rose Cottage and all associated engineering and building operations at land east of B4265 between

**Y Datblygiad**

Datblygiad arfaethedig i adeiladu priffordd newydd (o'r enw'r Ffordd Fynediad Ogleddol) gyda throetffyrdd, ffordd feiciau, cyffyrdd newydd, goleuadau, arwyddion, ffensys, gwaith lliniaru llifogydd, atalfeydd acwstig a mesurau lliniaru amgylcheddol eraill, tirweddu, dymchwel garej yn Rose Cottage a'r holl weithrediadau peirianyddol ac adeiladu cysylltiedig ar dir i'r dwyrain o'r B4265 rhwng Trebefered ac Eglwys Brewys, Sain Tathan, yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd gan y Cyngor ar 8 Medi 2017 o dan Ran III o Ddeddf 1990 o dan y cyfeirnod 2017/00564/FUL.

Boverton and Eglwys Brewis, St. Athan, in accordance with planning permission granted under Part III of the Act of 1990 by the Council on 8 September 2017 under the reference number 2017/00564/FUL.